Llŷn
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Rhif 15 • 2021
www.ahne-llyn-aonb.org

# Llygad Llŷn

Newyddlen AHNE Llŷn

*Yn y rhifyn hwn*


**Gwelliannau Amgylcheddol**

**Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

**Geifr Gwyllt**

**Lansio Cod Cefn Gwlad Newydd**

**Llwybr y Morwyr**











ardal arbennig

# CROESO



**Croeso i rifyn 15 o Llygad Llŷn – sef newyddlen flynyddol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Yn y rhifyn hwn cewch wybodaeth am ddatblygiadau diweddar, prosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a manylion am gystadleuaeth ffotograffiaeth 2021.**

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd iawn i lawer ohonom. Mae'r pandemig Cofid 19 wedi cael effaith sylweddol ar ein cymdeithas gan arwain i farwolaethau, salwch, cyfyngiadau cymdeithasol a chaledi. Y gobaith mawr yw bydd y brechlynnau, diheintio a newid arferion yn golygu y bydd y sefyllfa yn gwella ac na fydd raid ail gyflwyno cyfyngiadau yn y dyfodol.

Yn ogystal â'r effaith uniongyrchol mae'r pandemig wedi cael effeithiau eraill yma yn Llŷn. Gwelwyd cynnydd mewn cerdded llwybrau, beicio a hamddena anffurfiol. Mae llai o draffig a gweithgareddau wedi bod yn llesol i'r amgylchedd naturiol a bywyd gwyllt. Ar y llaw arall mae pryderon yn sgîl prysurdeb y cyfnodau gwyliau a chynydd mewn prisiau tai lleol.

Rydym yn awyddus iawn i glywed eich barn am Llygad Llŷn ac am waith y tîm. Hefyd hoffem glywed eich syniadau am brosiectau newydd a chyfleon i gydweithio. Cysylltwch ar bob cyfri!

## MANYLION CYSWLLT

AHNE Llŷn
Gwasanaeth Cefn Gwlad
Adran Amgylchedd
Swyddfa Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd LL53 5AA

**Ffôn** 01758 704 155 | 01758 704 176

**E-bost** ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

**Gwefan** www.ahne-llyn-aonb.org

Dilynwch ni ar Instagram!
@ahnellynaonb

**CYHOEDDWYD GAN:** Uned AHNE Llŷn

**LLUN CLAWR:**
Pwllheli o Lanfihangel, Gareth Jenkins

**ARGRAFFWYD GAN:**
Gwasg Carreg Gwalch, Llwyndyrys a Llanrwst

**CEFNOGWYD GAN:**
Cyngor Gwynedd Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

## TÎM AHNE LLŶN – mae tri aelod o staff yn gweithio yn y gwasanaeth:

**Swyddog AHNE Llŷn**
**Bleddyn Prys Jones**

Mae Swyddog AHNE Llŷn yn arwain gwaith Cyngor Gwynedd ar faterion craidd yr AHNE a delio gyda materion cenedlaethol.

**Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn**
**Elin Wyn Hughes**

Y Swyddog Prosiectau sy'n arwain ar brosiectau yr Uned AHNE, gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a hyrwyddo'r AHNE.

**Warden Cefn Gwlad AHNE**
**Kevin Roberts**

Gyda chymorth ariannol gan Llywodraeth Cymru mae'r Uned wedi penodi Warden Cefn Gwlad yn ddiweddar. Bydd y warden yn arwain ar brosiectau mynediad a natur yn yr AHNE.

**map AHNE Llŷn**



# Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy

Ers sawl blwyddyn bellach mae'r 5 AHNE yng Nghymru wedi derbyn grant gan Llywodraeth Cymru tuag at brosiectau amgylcheddol. Enw'r grant yma ydi **Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy** a'r thema llynedd (2020-21) oedd datgarboneiddio a thwristiaeth cynaliadwy. Llwyddwyd i dderbyn arian tuag at dri phrosiect yn AHNE Llŷn sef:

## Gwelliannau Machroes ger Abersoch –

Bu i'r Uned AHNE gydweithio gyda'r Uned Forwrol i wneud gwelliannau yn ardal traeth Machroes ger Abersoch. Roedd y gwaith yn cynnwys tarmacio a choncritio ardal flêr ger y maes parcio a'r lithrfa, ail wynebu llwybr caregog a gosod caban warden traeth newydd. Yn ogystal gosodwyd grisiau newydd i'r safle picnic ger y maes parcio a gwneud dipyn o waith gwaith barbio a thocio coed ar y safle.











# Car trydan a pwyntiau gwefru –

Mae cyfnewid cerbydau disl a phetrol am rai trydan yn lleihau llygredd amgylcheddol a chyfrannu at dargedau'r Cyngor i ddod yn garbon niwtral. Gyda'r grant cyfalaf prynwyd car trydan ar gyfer staff yr Uned AHNE/ Cefn Gwlad i gymryd lle car disl presennol. Yn ogystal defnyddiwyd y grant i ariannu pwyntiau gwefru trydan ger swyddfeydd Ffordd y Cob, Pwllheli. Gellir defnyddio rhain ar gyfer y car newydd a cherbydau trydan eraill fydd y Cyngor yn eu prynu yn y dyfodol.








# Toiledau traeth Morfa Nefyn

Roedd y toiledau yma mewn cyflwr gwael ac yn gostus i'w cynnal. Defnyddiwyd yr arian grant i adnewyddu'r toiledau yn gyfan gwbl, gosod paneli solar er mwyn eu gwneud yn fwy cynaliadwy a gwella'r mynediad at yr adeilad. Bu cydweithio rhwng yr Uned AHNE ac Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol y Cyngor.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

cronfa datblygu cynaliadwy

# Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn

## Beth yw hi?

Cronfa grant gan Lywodraeth Cymru yw'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, ac mae pob AHNE yn Nghymru yn derbyn arian ar gyfer ei ddyrannu i'r gymuned.

Mae gofyn i brosiectau llwyddiannus annog cynaladwyedd, a gwneud gwahaniaeth positif i gymunedau mewn ffyrdd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

## Faint o arian sydd ar gael?

Mae'r Gronfa yn gallu cyfrannu hyd at **70%** o gostau eich prosiect. Mae rhai prosiectau angen cyn lleied â £100, gydag eraill yn gofyn am rai miloedd. Mae'n dibynnu yn llwyr ar y prosiect sydd dan sylw.

## Pwy sy'n cael ymgeisio?

Gall unrhyw grŵp, bwyllgor, ymddiriedolaeth neu gymdeithas ymgeisio am nawdd. Mae nifer fawr felly o enghreifftiau, yn cynnwys ysgolion, cynghorau cymuned, tafarndai neu siopau cymunedol, clybiau ffermwyr ifanc, cymdeithas pysgotwyr a phwyllgorau neuaddau pentref. Gall unigolion hefyd ymgeisio fel ymgeisydd preifat – cyn belled bod y prosiect yn cyrraedd y gofynion a chynnwys y gymuned gyfan.

## Beth ydi'r drefn ymgeisio?

Rydym yn eich annog yn gryf i gysylltu gyda ni i drafod unrhyw syniadau cyn cael copi o'r canllawiau a'r ffurflen gais. Rydym yn gwahodd ceisiadau drwy gydol y flwyddyn. Bydd ceisiadau am swm o dan £3,000 yn cael eu penderfynu gan staff Uned AHNE Llŷn. Bydd ceisiadau am fwy na hynny yn cael eu penderfynu gan Banel Grantiau. Mae'r Panel Grantiau yn is-grwp o Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn.

## Newyddion Da ar gyfer 2021/22!

Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon – mae cyfanswm o £100,000 yn dod i Gronfa Datblygu AHNE Llŷn. Diolch yn fawr unwaith eto i Lywodraeth Cymru am y gefnogaeth – bydd y cyllid yn sicr o ddod â llawer o fudd i'r ardal.

## Sut ca'i fwy o wybodaeth?

Rydym yn rhannu llawer o wybodaeth am brosiectau sydd wedi derbyn nawdd ar ein cyfrif Instagram – **@ahnellynaonb** Gallwch hefyd gysylltu gyda staff Uned AHNE Llŷn am sgwrs i drafod unrhyw syniadau.

O dan yr amgylchiadau presennol y ffordd mwyaf hwylus o gysylltu yw dros e-bost. Dyma'r manylion: **ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru**

# Enghreifftiau o Brosiectau Llwyddiannus

**Er mwyn i chi gael blas ar yr hyn mae'r Gronfa yn gallu ei gefnogi, dyma enghreifftiau i chi o brosiectau llwyddiannus diweddar.**

**ENW PROSIECT:**
**GWELLIANNAU I STORWS ENLLI**
**Ymgeisydd: Ymddiriedolaeth Ynys Enlli**
**Cyfanswm: £6,210**



I'r sawl sydd wedi cael y pleser o ymweld ag Ynys Enlli, un o'r adeiladau cyntaf i chi eu gweld wrth gyrraedd wrth gyrraedd y lan, yw'r hen storws. Mae'n adeilad gyda chysylltiadau hanesyddol cryf, gyda'r adeilad yn adnodd pwysig i bysgotwyr ac yn gysylltiedig ag adeiladu'r goleudy ar ddechrau'r 19fed Ganrif. Mae cyflwr y storws wedi dirywio, a chefnogwyd prosiect i gynnal gwelliannau brys i'r adeilad yn ogystal â chynnal arolwg ymysg y gymuned leol am ei ddefnydd ar gyfer y dyfodol. Rydym yn edrych ymlaen yn arw i weld be ddaw o'r storws yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae Ynys Enlli yn lle delfrydol i fwynhau natur, hanes diddorol a llonyddwch Llŷn. Ceir adfeilion Abaty Awstinaidd y Santes Fair yno, a adeiladwyd yn yr 13eg Ganrif. Defnyddid y mynachdy hyd gyfnod Diddymu'r Mynachlogydd ym 1537. Môr-ladron oedd yn gysylltiedig ag Enlli wedi hynny, hyd nes sefydlwyd cymuned o amaethwyr a physgotwyr yng nghanol yr 18fed Ganrif, â'r ynys yn eiddo i'r Arglwydd Niwbwrch. Cyfeirir at yr ynys ers y Canol Oesoedd fel man claddu ugain mil o saint, a dywedid bryd hynny bod tair pererindod i Enlli gyfwerth ag un pererindod i Rufain. Am fwy o wybodaeth ddiddorol ewch i **www.enlli.org**

**ENW PROSIECT: GARDD YSGOL BOTWNNOG**
**Ymgeisydd: Ysgol Botwnnog**
**Cyfanswm: £3,600**

Cefnogwyd prosiect i gynnal gwelliannau i'r ardd yn Ysgol Botwnnog. Bu gwaith clirio hen offer a chwynnu, a phrynwyd offer newydd a nwyddau garddio. Mae'r prosiect am sicrhau fod y disgyblion yn cael profiadau gwerthfawr o ran tyfu llysiau tymhorol a bwyta'n iach. Mae'r prosiect hefyd yn addysgu pobl ifanc am y tywydd a hinsawdd, a sut mae modd datblygu cynefinoedd i fywyd gwyllt. Mae unrhyw brosiect sydd yn datblygu sgiliau gwerthfawr fel hyn i bobl ifanc a rhoi cyfle i fwynhau gweithgareddau iachus yn sgorio'n dda o ran meini prawf y Gronfa.

**ENW PROSIECT: MÊL ENLLI**
**Ymgeisydd: Ymgeisydd Preifat**
**Cyfanswm: £1,609**




Dyma brosiect arall ar Ynys Enlli, dan arweiniad un o wardeiniaid yr ynys y tro hwn. Mae Mêl Enlli yn fenter bach sydd yn cadw a thrin gwenyn ar yr ynys. Nod y fenter yw cynyddu poblogaeth yr ynys o wenyn – a thrwy wneud hynny, cyfoethogi bioamrywiaeth a chryfhau economi'r ardal, ynghyd a chodi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd gwenyn. Wrth gwrs, mae'n fwriad hefyd i gynhyrchu mêl Cymreig pur a blasus i'w werthu i'r byd! Mae nawdd y Gronfa wedi bod yn gymorth i sicrhau'r nwyddau angenrheidiol sydd ei angen ar gyfer y trin y gwenyn a chynaeafu'r mêl.





**ENW PROSIECT: COFEB ABERDARON**
**Ymgeisydd:** Cyngor Cymuned Aberdaron ac Eglwys Sant Hywyn
**Cyfanswm:** £1,623

Yn ôl i'r Tir Mawr, ac i fynwent Eglwys Hywyn Sant, Aberdaron. Saif cofeb yma sy'n coffau'r rheini o'r ardal a gollodd eu bywydau yn ystod y ddau Ryfel Byd. Mae'r safle hwn mewn llecyn agored ger y traeth felly yn naturiol mae cyflwr y gofeb wedi dirywio dros y blynyddoedd. Bu prosiect gwerth chweil ar y cyd rhwng Cyngor Cymuned Aberdaron a'r Eglwys, i wella cyflwr ac adfer y gofeb hon er mwyn cydnabod aberth y sawl sydd â'i enw arni ar gyfer y dyfodol. Mae'r Gronfa yn addas iawn ar gyfer cynnal gwelliannau fel hyn i gofebion a nodweddion hanesyddol arwyddocaol.



**ENW PROSIECT:**
**DATBLYGU LÔN Y PLAS**
**Ymgeisydd:**
**Ymddiriedolaeth Ynys Enlli**
**Cyfanswm: £1,639**


Dyma brosiect i ail-agor hen lwybr hanesyddol ar Enlli. Mae'r hen ffordd, a elwir yn Lôn y Plas, i'w weld yn glir o'r mynydd rhwng dau glawdd. Arferai ffermwyr yr Ynys ddefnyddio'r ffordd i gario gwymon fel gwrtaith i fyny tuag at y caeau gyda cheffyl a chert. Gan fod y llwybr wedi colli ei bwysigrwydd amaethyddol dros y degawdau diwethaf, roedd wedi cael ei adael i dyfu yn wyllt. Mae gwaith wedi bod yn digwydd i glirio'r mieri a gosod giatiau derw newydd. Bydd y gwaith yn sicr o wella amgylchedd yr ardal a chryfhau'r rhwydwaith o lwybrau sydd yno. Dyma brosiect gwerth chweil i gyfoethogi bywyd gwyllt yr ardal yn ogystal â phrofiad ymwelwyr.



## ENW PROSIECT:
## CAPEL NEWYDD NANHORON

**Ymgeisydd:** Ymddiriedolwyr Capel Newydd Nanhoron

**Cyfanswm:** £1,185




Mae'r safle hwn wedi bod o ddiddordeb mawr i'r Uned AHNE dros y blynyddoedd ac yn un o drysorau Llŷn. Mae Capel Newydd Nanhoron yn dyddio yn ôl i ddiwedd yr 18fed Ganrif ac mae ei gymeriad gwreiddiol wedi ei gadw'n arbennig o dda. Mae wedi ei restru gan Cadw (Gradd I). Mae'r safle wedi bod ar gau i'r cyhoedd ers tro.

Yn ddiweddar, mae Ymddiriedolwyr y capel wedi arwain prosiect i gynnal arolwg proffesiynol o ddiogelwch a chyflwr yr adeilad. Bydd y prosiect yn galluogi'r Ymddiriedolwyr i weld pa waith angenrheidiol sydd ei angen i ddiogelu'r adeilad i'r dyfodol, ac i sicrhau ei fod yn ddiogel i'r cyhoedd ymweld yn y cyfamser.




## ENW PROSIECT:
## PLANNU BLODAU, BOTWNNOG

**Ymgeisydd:**
**Cyngor Cymuned Botwnnog**

**Cyfanswm:** £160

Swm cymharol fychan o arian, ond prosiect gyda buddion pellgyrhaeddol iawn. Plannwyd bylbiau Cennin Pedr mewn nifer o wahanol safleoedd ym Motwnnog, Sarn Mellteyrn a Bryncroes yn ystod gaeaf 2020. Dyma gyfnod dyrys, ansicr a phryderus iawn, a bu'r prosiect hwn yn gyfle i bobl gymryd rhan mewn gweithgaredd llesol iawn i'r enaid gan wella'r amgylchedd hefyd. Cyngor Cymuned Botwnnog oedd yn arwain ar y prosiect gyda'r Cynghorydd Gareth Williams yn brysur yn cyd-lynu a symud y gwaith yn ei flaen. Gobeithio bod y trigolion a'r peillwyr wrth eu boddau!


**ENW PROSIECT: GWELLIANNAU PORTH CYCHOD**
**Ymgeisydd: Cymdeithas Cychod Porth Ysgaden Cyfanswm: £2,243**

Mae Porth Cychod yn un o hen borthladdoedd prysur Llŷn ac yn llecyn bendigedig ar yr arfordir ger Tudweiliog, ar Lwybr Arfordir Cymru. Roedd angen ychydig o waith clirio ar y safle, gyda hen gytiau pysgotwyr yno wedi gweld dyddiau gwell. Mae'r gwaith clirio wedi gwneud gwahaniaeth arbennig o dda i'r tirlun ac wedi gwella'r amgylchedd hefyd. Mae Porth Cychod mewn lleoliad sensitif iawn. Mae oddi fewn ffiniau AHNE Llŷn wrth gwrs, ond hefyd mae gerllaw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Porth Towyn i Borth Wen) sydd wedi ei ddynodi ar sail y bywyd gwyllt arbennig sydd yno. Yn ogystal, mae Porth Cychod oddi fewn ffiniau Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae'r dynodiad hwnnw yn ymwneud â'r bywyd gwyllt morol arbennig ac mae mwy o wybodaeth ar gael yma – **www.penllynarsarnau.co.uk**.


Llun: Gwenan Griffith

**ENW PROSIECT: GWELLIANNAU PORTH YSGADEN**
**Ymgeisydd: Cymdeithas Cychod Porth Ysgaden**
**Cyfanswm: £3,140**





Dyma brosiect arall a fu'n gwella amgylchedd a chlirio un o borthladdoedd eiconig yr ardal. Mae hanes diddorol iawn i Borth Ysgaden, sydd dafliad carreg o Borth Cychod. Mae sawl nodwedd diddorol yma, megis yr hen odyn galch (sydd wedi ei rhestru gan Cadw – Gradd II) a thalcen tŷ – yr unig beth sy'n dal i sefyll o hen gartref swyddog tollau. Mae hen iard lô ddiddorol yma hefyd, sydd bellach yn storio cychod. Yn nannedd stormydd geirwon môr Iwerddon, mae cyflwr yr iard wedi dirywio dros y blynyddoedd, ac roedd ambell wal wedi dymchwel.

Cafwyd nawdd o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ei roi tuag at ail-godi'r waliau a gosod giatiau newydd.



**ENW PROSIECT: TAFARN YR HELIWR**
**Ymgeisydd:** Pwyllgor Tafarn yr Heliwr
**Cyfanswm:** £7,559

Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu tafarn gymunedol yn nhref Nefyn. Mae'r Gronfa wedi cefnogi sawl elfen o waith dros y blynyddoedd diweddar. Mae hyn yn cynnwys asesiadau cychwynnol i gyflwr yr adeilad, a datblygiadau tu mewn i'r adeilad gan saer coed lleol. Mae nawdd yn ddiweddar wedi cynorthwyo'r pwyllgor i ddatblygu eu gwefan newydd a phrynu nwyddau amrwyiol. Mae'n gyfnod cyffrous iawn i'r fenter, ac edrychwn ymlaen yn fawr i weld y dafarn yn datblygu fel adnodd gwerthfawr i'r gymuned a phawb sy'n ymweld â hi.

Mae materion cyffrous eraill yn ymwneud â Thafarn yr Heliwr hefyd, a phleser yw cael rhannu'r newyddion. Mae Swyddog Datblygu Cymunedol wedi ei phenodi i weithio i'r fenter. Dymuniadau gorau i Gwenno Rice Roberts yn ei swydd newydd!

Yn ogystal, cafwyd cadarnhad bod y fenter wedi derbyn grant gwerth £155,283 gan Gronfa Cymunedau'r Arfordir (Llywodraeth Cymru) a'r Loteri Genedlaethol. Llongyfarchiadau enfawr i'r pwyllgor.

Gallwch ddilyn hanes y prosiect ar y cyfryngau cymdeithasol, yn cynnwys eu cyfrif Instagram – **@yrheliwrnefyn**

**ENW PROSIECT: PLAS CARMEL**
**Ymgeisydd:** Pwyllgor Plas Carmel **Cyfanswm:** £33,400

Dyma brosiect arall sydd wedi ei gefnogi dros y blynyddoedd diwethaf gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Mae safle Plas Carmel, nepell o Aberdaron yn safle unigryw gyda hen gapel hynod, wedi cadw ei nodweddion gwreiddiol yn dda ac wedi ei restru gan Cadw (Gradd II*). Mae'r capel yn dyddio yn ôl i tua 1810 yn ôl pob sôn. Mae hen siop wledig draddodiadol ar y safle hefyd ac ar hyn o bryd mae gwaith i atgyweirio'r siop a'i datblygu yn safle ble gellir dod i ddysgu mwy a dathlu treftadaeth ddiddorol y safle a'r ardal yn ehangach.



Mae'r prosiect wedi cyrraedd llawer o feini prawf y Gronfa, yn enwedig o ran gwarchod treftadaeth yr ardal a dod a budd i economi a diwylliant yr ardal. Mae lleoliad y safle hefyd dafliad carreg o draeth Porthor a Llwybr yr Arfordir yn fanteisiol iawn ac am gynnig profiad gwerth chweil os ydych yn bwriadu crwydro.

Gallwch ddilyn datblygiad prosiect ar Instagram – **@plascarmel**

# Geifr Gwyllt








Geifr gwyllt yr Eifl. Anifeiliaid sy'n crwydro'r mynyddoedd a'r ardaloedd cyfagos ers canrifoedd. Mae trigolion ac ymwelwyr i'r ardal bellach yn gyfarwydd iawn gyda'r creaduriaid hyn wrth grwydro'r Llwybr Arfordirol neu wrth ymweld â Chanolfan Nant Gwrtheyrn. Maent i'w gweld hefyd ambell dro wedi crwydro lawr i bentrefi Llithfaen, Pistyll a Threfor. Maent mor eiconig â'r geifr sydd ar y Gogarth yn Llandudno, a'r merlod ar fynyddoedd y Carneddau. Ond beth yw eu hanes tybed?

Mae sôn yn lleol fod llinach y geifr yn tarddu o'r cyfnod ble roedd Chwarel yr Eifl yn ei anterth o ganol yr 19fed Ganrif. Dyma chwarel ithfaen mwya'r byd ar un cyfnod. Daeth gweithwyr o bob cwr i weithio i'r ardal gyda rhai yn dod â'u geifr i'w canlyn. Sonnir hefyd bod y geifr o bosib wedi eu cludo yma o ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru. Da o beth i unrhyw fugail ar yr Eifl oedd cael geifr i bori'r creigiau. Gallai'r geifr fwyta'r tyfiant mewn llefydd peryglus a dod oddi yno yn ddi-drafferth. Nid oedd hyn mor wir am y defaid. Roedd presenoldeb y geifr felly yn atal y defaid rhag crwydro i bori llefydd peryglus ac arwain at golledion.

Mae'r creaduriaid hyn wedi denu llawer o sylw yn ddiweddar. Dros y flwyddyn ddiweddaf a'r cyfyngiadau a welwyd yn sgil y pandemig, mae'r geifr wedi cael llonydd i grwydro. Roedd hyn yn enwedig dros fis Chwefror eleni, gyda llawer ohonynt ym mhentref Trefor yn ystod tywydd oer. Mae'n debygol eu bod wedi crwydro i lawr am fwyd ac i gysgodi. Dyma luniau gan Gareth Jenkins o rai o'r geifr a fu'n aros dros dro ar gaeau Ysgol yr Eifl ac ar y cae pêl-droed.

Rhagdybiaeth llawer yw bod niferoedd y geifr yn cynyddu, ac mae pryder o ran effaith hyn ar gynaladwyedd, yn enwedig o ran bioamrywiaeth yr ardal. Mae trafodaethau wedi cychwyn i wneud arolwg manwl o'r anifeiliaid hyn er mwyn darganfod mwy amdanynt a chael syniad o'u niferoedd a'u cyflwr. Mae bwriad hefyd i edrych ar eu harferion ac effaith eu pori ar wahanol gynefinoedd. Mae tirwedd yr Eifl yn sensitif a chyda sawl safle wedi ei ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar sail gwahanol fywyd gwyllt arbennig.

Byddwn yr rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwil ar ein cyfrif Instagram maes o law – **@ahnellynaonb.**



# Lansio Cod Cefn Gwlad Newydd




**Mae Llŷn yn un o ardaloedd hyfrytaf Cymru heb os ac yn lle delfrydol i grwydro. Boed yn un o drigolion yr ardal neu yn ymwelydd, mae canllaw cenedlaethol defnyddiol wedi ei gyhoeddi ar eich cyfer er mwyn sicrhau eich bod yn crwydro yn ddiogel ac yn barchus – ac yn mwynhau wrth gwrs! Mae'r wybodaeth isod yn seiliedig ar ddatganiad i'r wasg gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Ebrill 2021)**

Ar 1 Ebrill eleni, cyhoeddwyd Cod Cefn Gwlad newydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a *Natural England*, a hynny 70 mlynedd ers cyhoeddi'r llyfryn cyntaf ym 1951. Mae'r Cod yn caniatáu i bobl o bob oed a chefndir fwynhau'r manteision iechyd a lles y mae natur yn eu cynnig, gan barchu'r amgylchedd a phobl sy'n byw ac yn gweithio ynddo.

Mae mwy o bobl yn mwynhau'r awyr agored nag erioed o'r blaen, ac mae'r cod wedi'i ddiwygio i helpu pobl i fwynhau cefn gwlad mewn ffordd ddiogel a pharchus.

Mae'r Cod newydd wedi'i ddylanwadu gan bron i 4,000 o ymatebion gan ran ddeiliaid i arolwg ar-lein, a oedd yn ceisio barn ar arferion gorau ar gyfer ymweld â chefn gwlad a diogelu'r amgylchedd naturiol, ac fe gafwyd ymateb enfawr.

Mae'r newidiadau'n cynnwys cyngor ar sut i greu amgylchedd gyfeillgar, rheolau cliriach sydd yn tanlinellu pwysigrwydd clirio baw cŵn, annog pobl i aros ar lwybrau troed a pheidio â bwydo a anifeiliaid fferm. Mae hefyd yn rhoi cyngor o ran gweithgareddau fel nofio gwyllt, a sut i sicrhau caniatâd.

Mae'r newidiadau allweddol i'r Cod Cefn Gwlad yn cynnwys:

- **Cyngor newydd i bobl fod yn gyfeillgar a rhannu'r lle, yn ogystal â mwynhau eich ymweliad, cael hwyl a chreu atgofion**
- **Nodyn i atgoffa pobl i beidio â bwydo da byw, ceffylau nac anifeiliaid gwyllt.**
- **Cyfarwyddyd i aros ar lwybrau troed wedi'u marcio, hyd yn oed os ydynt yn fwdlyd, i ddiogelu cnydau a bywyd gwyllt.**
- **Gwybodaeth am ganiatâd i wneud rhai gweithgareddau awyr agored, fel nofio gwyllt.**
- **Rheolau cliriach i gerddwyr cŵn fynd â baw cŵn adref a defnyddio eu bin eu hunain os nad oes biniau gwastraff cyhoeddus.**

Yn hytrach na rhestr o reolau, mae'r Cod yn ganllaw i'r cyhoedd – sydd yn cydnabod y manteision iechyd a lles sylweddol a ddaw yn sgil treulio amser ym myd natur.

Dywedodd Clare Pillman, Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru:

"Ers 70 mlynedd, mae'r Cod Cefn Gwlad wedi bod yn gonglfaen i'n perthynas â'r awyr agored – adnodd dibynadwy a hanfodol sy'n helpu pobl i fwynhau eu hamgylchedd naturiol yn ddiogel ac yn barchus. Hoffwn ddiolch i'n holl bartneriaid yng Nghymru sydd wedi chwarae eu rhan wrth lunio'r cod.

"Gyda mwy a mwy ohonom yn gwneud y gorau o'n cefn gwlad hardd a gyda thywydd cynhesach a dyddiau hirach ar y ffordd, ni fu glynu wrth y cod erioed yn bwysicach. P'un a ydych chi'n dychwelyd i leoedd poblogaidd, neu'n mynd i gyrchfan am y tro cyntaf erioed, gwnewch yn siŵr eich bod yn paratoi ar gyfer eich taith ymlaen llaw ac yn glynu at y cod pan fyddwch yn cyrraedd yno."

Diweddarwyd y Cod Cefn Gwlad yn ystod haf 2020, er mwyn ymateb i faterion a ddaeth i'w amlwg yn ystod y cyfnod clo, fel cynnydd mewn taflu sbwriel a chŵn yn aflonyddu ar ddefaid. Nod yr adnewyddu yw helpu pawb i fwynhau parciau a mannau agored mewn ffordd ddiogel, gan eu hannog i ofalu am ein hamgylcheddau naturiol a bywoliaeth y rhai sy'n gweithio yno.

Gellir gweld y Cod Cefn Gwlad wedi'i ddiweddaru ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru –

**www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**



# Llwybr y Morwyr

Dyma i chi lwybr diddorol, a sefydlwyd gan Gyngor Tref Nefyn gyda grant o Gronfa Cymunedau'r Arfordir, Llywodraeth Cymru. Mae Llwybr y Morwyr wedi ei seilio ar hen lwybrau yr arferai morwyr eu ddefnyddio i gerdded yn ôl ac ymlaen rhwng ardaloedd Nefyn a Llanbedrog/Abersoch yn yr 19fed Ganrif.

Mae'r llwybr yn ymestyn o dref hanesyddol Nefyn i Abersoch ar draws y penrhyn ac yn mesur tua 12 cilometr. Mae'n bosib cerdded o Abersoch i Nefyn hefyd wrth gwrs!. Y man cychwyn yw'r maes parcio ar Stryd y Plas (ger y Fron) ac yna ar hyd cyrion Cae Pysgodyn i gyfeiriad Boduan. Bydd angen croesi'r A497 cyn mynd ymlaen trwy Gors Geirch i ardal Ceidio a Madryn ac yna ymlaen i Nanhoron, Mynytho ac yna Abersoch.

Mae arwyddion ar hyd y llwybr yn cynnwys y logo unigryw. Mae map o'r llwybr hefyd i'w weld ar safle we **www.crwydro.co.uk**.

*Ger Cae Pysgodyn, Nefyn*






*Bwrdd Gwybodaeth Llwybr y Morwyr*

Awgrymir hefyd ddefnyddio map Arolwg Ordnans Explorer (graddfa 1:25,000) a gwisgo dillad ac esgidiau addas. Yn naturiol gall y llwybr fod yn wlyb neu fwdlyd mewn rhai mannau fel Cors Geirch yn ystod misoedd y gaeaf.

Llwybr y Morwyr

Mae digon i'w weld a'i fwynhau ar Lwybr y Morwyr. Ceir golygfeydd gwych o'r penrhyn, yr arfordir a'r môr o sawl man ac mae'r llwybr yn mynd trwy gynefinoedd naturiol diddorol yn cynnwys tir pori garw, corsydd, coedwigoedd a rhostir. Hefyd mae llawer o olion archeolegol a hanesyddol i'w gweld ar y daith. Dyma ddetholiad o safleoedd natur neu hanesyddol sydd ar y llwybr neu gerllaw:

**Garn Boduan** – Ar ben y Garn, sydd yn agos at fan cychwyn y llwybr yn Nefyn, mae llwyfan creigiog o dir oedd yn safle i fryngaer fawr o Oes yr Haearn. Yn ogystal â golygfeydd gwych mae olion tua 170 o dai crynion i'w gweld yno.


**Cors Geirch** – Ar sail y bywyd gwyllt arbennig yn y gors hon, mae wedi ei dynodi yn Ardal Gwarchod Arbennig a safle RAMSAR. Ymysg yr anifeiliaid prin yma mae Britheg y Gors, malwoden droellog geyer, llygoden bengron y dŵr a'r pryf cacynaidd. Mae'r gors yn gartref i amrywiaeth o adar hefyd yn cynnwys y fronfraith a'r ehedydd.

**Garn Fadryn** – Mae Garn Fadryn ar ganol penrhyn Llŷn a cheir golygfeydd eang i bob cyfeiriad o'r copa. Mae olion bryngaer o'r Oes Haearn a chastell Canoloesol i'w gweld yma. Yn ôl Gerallt Gymro fe adeiladwyd y castell Canoloesol yn 1188 yn un o glwstwr o gestyll cynnar o gerrig a adeiladwyd yng Ngwynedd yn ystod yr 12fed Ganrif.

**Ffynnon Sarff, Mynytho** – Ffynnon syml ar ymyl comin y Foel Gron a gafodd ei henwi, yn ôl llen gwerin, ar ôl sarff ar arferai fyw ynddi. Ceir mwy o'r hanes yn llyfr "Llên Gwerin Sir Gaernarfon" gan Myrddin Fardd (1908).



*Ar gyrion Cors Geirch*






# Cystadleuaeth Ffotograffiaeth 2021

Rydym yn cynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth eleni, o dan y thema “**Llŷn i Mi**”.

Rydym am roi cyfle i chi arddangos yr hyn sydd mor arbennig am Benrhyn Llŷn ac annog eraill i werthfawrogi’r ardal arbennig hon.

Rydym yn hyblyg o ran yr hyn mae’r thema yn ei olygu i bob cystadleuydd – gall olygu rhywbeth gwahanol i bawb. Gallwch yrru lluniau o nodweddion fel y bywyd gwyllt (ar y tir neu’r môr!), y tirlun hardd, yr arfordir dramatig, hen adeiladau diddorol, waliau cerrig a chloddiau traddodiadol neu hyd yn oed y tywydd. Gallwch hefyd yrru llun o leoliad sydd yn agos iawn at eich calon am wahanol resymau – rhannwch eich stori gyda ni!

Caniateir hyd at ddau lun i bob ymgeisydd.

Mae cyfle i chi ennill gwobrau gwerth chweil. Dyma’r manylion:

**GWOBRAU**

- 1af – **Tocyn Anrheg Gwesty Porth Tocyn, Abersoch (£100)**
- 2ail – **Tocynnau Anrheg Siopau Amrywiol, Pwllheli (£75)**
- 3ydd – **Tocyn Anrheg Canolfan Arddio Tyddyn Sachau (£50)**

Gyrrwch eich llun(iau) dros e-bost at **ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru** gan nodi eich enw llawn ac ymhle cafodd y llun ei dynnu.

Byddwn yn rhannu rhai o’r lluniau ar Instagram.

## Dyddiad Cau – Dydd Gwener, Medi 3ydd 2021

### Rhowch gynnig arni a phob lwc!

**Rheolau’r Gystadleuaeth**

- Caiff yr enillwyr eu dewis gan banel annibynnol a benodir gan Uned AHNE Llŷn
- Caniateir uchafswm o ddau lun gan bob unigolyn
- Ni chaniateir i unigolyn ymgeisio fwy nag unwaith
- Mae’r gystadleuaeth yn agored i bob oedran
- Nid yw’r gystadleuaeth yn agored i unrhyw un sy’n uniongyrchol gysylltiedig gyda threfnu’r gystadleuaeth
- Nid yw’r gystadleuaeth yn agored i ffotograffwyr proffesiynol
- Bydd gan yr Uned AHNE hawl i ailddefnyddio’r lluniau yn y dyfodol, oni nodir yn wahanol gan yr ymgeisydd
- Wrth ymgeisio mae’r cystadleuwyr yn ymrwymo i reolau’r gystadleuaeth

